Cefnogaeth i Lywodraethwyr Sir Ddinbych – Bwletin 9

Cyflwyniad

Dylai unrhyw Gôd Ymarfer fod yn seiliedig ar gytundeb y corf llywodraethol llawn a dylid ei gofnodi. Dylid ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn cwrdd yn effeithiol ag anghenion y corff llywodraethol.

Côd Ymddygiad Llywodraethwyr
Dogfen Gyfarwyddiadol i Gyrff Llywodraethol yn Sir Ddinbych

1. Nid oes gan unrhyw unigolyn o lywodraethwr rym nac awdurdod yn rhinwedd y ffaith ei fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol oni bai bod y fath rym neu awdurdod wedi'u dirprwyo iddo; dim ond y Corff Llywodraethol cyfan all weithredu neu wneud penderfyniadau oni chafwyd cytundeb fel arall, a hwnnw wedi'i gofnodi.

2. Ni ddylai unrhyw lywodraethwr ddefnyddio ei safle ei hunan i ddiben sicrhau mantais mewn perthnasau eraill gyda'r ysgol neu'r gymuned [e.e. fel athro, fel gweithiwr cyflogedig, rhiant neu gynghorydd].

3. Mae'r corff llywodraethol yn cydnabod ei fod yn gweinyddu corff cyhoeddus a gyllidir trwy drethiant lleol a chenedlaethol. Mae felly'n cydnabod yr angen i sicrhau bod ei weithgarwch yn agored a bod modd iddo gael ei archwilio gan y cyhoedd. Rhaid i gofnodion y corf llywodraethol a'i bwyllgorau fod ar gael yn yr ysgol i unrhyw un sy'n dymuno eu darllen.

4. Rhai i bob llywodraethwr, sut bynnag y cawsant eu penodi neu eu hethol, sylweddoli eu bod yn atebol, fel unigolion, i gyrff neu etholaethau penodol. O'r herwydd, mae gan bob llywodraethwr ddyletswydd, yn ystod y drafodaeth ar unrhyw eitem, i ystyried arwyddocâd y penderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethwr yng nghyd-destun y corff a oedd yn gyfrifol am eu penodiad. Mae llywodraethwyr etholedig yn ymrwymedig i adrodd yn rheolaidd i'r cyrff a'u penododd, ac i sefydlu dulliau ar gyfer ceisio barn am faterion o natur neu ddiddordeb cyffredinol, sy'n gysylltiedig â lles yr ysgol, ac sy'n debygol o gael eu dwyn gerbron y llywodraethwyr. Bydd llywodraethwyr penodedig yn ystyried ym mha ffyrdd y gall y rhesymau a oedd yn sail i'w penodiad gael eu hadlewyrchu yn eu cyfraniadau.

5. Ni all unrhyw lywodraethwr, mewn unrhyw amgylchiadau, weithredu mewn modd a fandadwyd gan y corff a'i hetholodd neu a'i penododd, er y dylai ef [hi] adrodd am unrhyw farn y rhoddwyd mynegiant iddi gan aelodau'r corff hwnnw.

6. Mae pob llywodraethwr yn gyfartal.

7. Mae pob llywodraethwr wedi'i benodi er lles yr ysgol, a dylent weithredu i hyrwyddo hynny, waeth beth yw'r corff a'u hetholodd.

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

8. Mae gan y rhan fwyaf o lywodraethwyr berthynas arall gyda'r ysgol megis fel gweithiwr cyflog neu riant. Dylent fod yn arbennig o ofalus i sicrhau bod y perthnasau hyn sydd ganddynt yn rhai priodol, eu bod yn eu trin mewn modd moesegol ac nad yw eu sefyllfa fel llywodraethwyr yn cael ei chyfaddawdu nac yn agored i gael ei chamddehongli.

9. Dylai llywodraethwyr fod yn brydlon pan maent yn mynychu cyfarfodydd a pharatoi eu hunain cyn belled ag y mae hynny'n bosibl, gan sicrhau eu bod wedi darllen y deunyddiau perthnasol ac wedi ystyried y cyfraniadau y gallant eu gwneud i eitemau ar yr agenda.

10. Ni fydd llywodraethwyr yn gwneud defnydd o'r hyn y maent wedi dod i wybod amdano mewn cyfarfodydd i unrhyw ddiben arall, ac ni fydd unrhyw eitem a ddynodwyd yn gyfrinachol yn cael ei thrafod tu allan i'r corff llywodraethol.

11. Mae llywodraethwyr yn derbyn cyfrifoldeb corfforaethol am y penderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethol.

12. Bydd llywodraethwyr yn ystyried pa fedrau unigol, nodweddion a gwybodaeth bersonol y maent yn meddu arnynt ac yn eu defnyddio er lles yr ysgol.

    Wrth drafod y Côd Ymarfer, efallai bydd y corff Llywodraethol yn dymuno cyfeirio at Saith Egwyddor y Bywyd Cyhoeddus (Anhunanoldeb, Integriti, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Didwylledd, Onestrwydd, Arweinyddiaeth] a baratowyd gan Bwyllgor Nolan a'u cyhoeddi yn yr Arweiniad ar Lywodraethu Da (DFEE, 1996). Lluniwyd hwn i egluro egwyddorion sylfaenol ymddygiad llywodraethwyr da.

    Gwneir darpariaeth dan Reoliadau 2005 'Rheolaeth Ysgolion a Gynhelir' [Offeryn Statudol 2914] i atal llywodraethwr os na fydd ef/hi yn cadw at y Côd Ymddygiad. Mae hyn yn caniatáu i Gorff Llywodraethol atal am gyfnod gosodedig o 6 mis ar sail un neu fwy o'r materion canlynol:-

    a) bod y llywodraethwr, fel person y telir iddo am weithio yn yr ysgol, yn destun camau disgyblu mewn perthynas â'i swydd;

    b) bod y llywodraethwr yn destun achos mewn unrhyw lys neu dribiwnlys lle gall y ddedfryd olygu ei fod ef/hi wedi'i anghymwyso o fedru parhau yn ei swydd fel llywodraethwr dan Atodlen 5;

    c) bod y llywodraethwr wedi ymddwyn mewn modd sy'n anghyson ag ethos neu â chymeriad crefyddol yr ysgol a'i fod wedi dwyn, neu'n debygol o ddwyn anfri ar yr ysgol, y corff llywodraethol neu ei swydd ef/hi ei hun; neu

    d) bod y llywodraethwr wedi methu â chadw at ei gyfrifoldeb i gynnal cyfrinachedd mewn perthynas â'r ysgol, unrhyw aelod staff neu unrhyw ddisgybl yn yr ysgol.

Denbighshire Governors' Support – Bulletin 9

Introduction

Any Code of Practice should be agreed, and minuted, by the full governing body and should be reviewed periodically to ensure that it is still relevant and effective in meeting the needs of the governing body.

Code of Conduct for Governors
Guidance Document for Governing Bodies in Denbighshire

1. No governor has individual authority or power by being a member of the Governing Body, unless it has specifically been delegated; only the Governing Body as a whole can take actions or decisions unless agreed otherwise and formally minuted.

2. No governor should use his or her position to gain advantage in other relationships with the school or community (e.g. as a teacher, employee, parent or councillor).

3. The governing body recognises that it administers a public body funded by local and national taxation. It therefore recognises the need to ensure that its proceedings are open to public scrutiny. Minutes of the governing body and committee meetings must be made available at the school for anyone to read.

4. All governors, however appointed or elected, recognise that they are individually accountable to certain bodies or constituencies. All governors, therefore, have a duty to consider the significance of governing body decisions for the source of their appointment during discussion on any item. Elected governors undertake to report to their elective bodies regularly, and to initiate methods of gathering views on matters likely to be brought before the governors, where these are of a general nature or interest connected with the welfare of the school. Appointed governors will consider ways in which the reason for the appointment may be reflected in their contributions.

5. No governor may be mandated by his or her elective or appointing body under any circumstances, although (s)he should report any views expressed by members of that body.

6. All governors are of equal standing.

7. All governors are appointed, and should act, for the good of the school, whatever their constituency.

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

8. Most governors have other relationships with the school, such as employee or parent. They should be particularly careful to ensure that these relationships are conducted in a proper and ethical manner, and that their standing as a governor is not compromised or open to misinterpretation.

9. Governors will attend meetings punctually and well prepared as far as possible, having read supporting material and considered the contributions they may make on agenda items.

10. Governors will not use any material learned at meetings for other purposes, and no item designated as confidential will be discussed outside the governing body.

11. Governors accept corporate responsibility for the decisions of the governing body.

13. Governors will consider what individual skills, personal qualities and knowledge they possess, and put them to use for the good of the school.

In discussing the Code of Conduct, the Governing Body may wish to refer to the Seven Principles of Public Life (Selflessness, Integrity, Objectivity, Accountability, Openness, Honesty, Leadership) prepared by the Nolan Committee and published in the Guidance on Good Governance (DFEE, 1996). This was designed to explain the basic principles of good governor conduct.

Provision is made under the 'Government of Maintained Schools (Wales) Regulations, 2005 (Statutory Instrument 2914) to suspend a governor if he/she does not adhere to the code of conduct. This enables a Governing Body to suspend for a fixed period of 6 months on one or more of the following grounds:

a) that the governor, being a person paid to work at the school, is the subject of disciplinary proceedings in relation to his or her employment;

b) that the governor is the subject of proceedings in any court or tribunal, the outcome of which may be that he or she is disqualified from continuing to hold office as a governor under Schedule 5;

c) that the governor has acted in a way that is inconsistent with the ethos or with the religious character of the school and has brought or is likely to bring the school or the governing body or his or her office into disrepute; or

d) that the governor is in breach of his or her duty of confidentiality of the school or to any member of staff or to any pupil at the school.